

# Sicrhau Dyfodol Addysg Cerddoriaeth yng Nghymru

**Mae cerddoriaeth yn un o gonglfeini hunaniaeth ddiwylliannol gyfoethog Cymru.** Yn ôl UK Music, ymwelodd 834,000 o dwristiaid cerddoriaeth â Chymru yn 2024, gan gynhyrchu £384 miliwn mewn gwariant a chan gynnal mwy na 3,600 o swyddi[i]. Y tu hwnt i'r cyfraniad economaidd hwn, mae cerddoriaeth yn cryfhau cymunedau trwy alluogi pobl i gymryd rhan mewn corau, bandiau pres, a ffyrdd eraill o greu cerddoriaeth yn ystod amser hamdden. Caiff y traddodiadau hyn eu dathlu mewn Eisteddfodau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, sy'n mynd ati fwyfwy i adlewyrchu natur amrywiol cymdeithas gyfoes Cymru. Hefyd, mae cerddoriaeth yn hollbwysig ar gyfer diogelu a datblygu'r Gymraeg[ii]. Mae Cymru'n elwa ar lwybrau cynnydd cenedlaethol cryf, yn cynnwys Ensembles Ieuenctid Cenedlaethol, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, ac adrannau cerddoriaeth mewn prifysgolion ledled y wlad – mae pob un o'r elfennau hyn yn helpu i feithrin doniau'r dyfodol a chadarnhau enw da Cymru mewn perthynas â rhagoriaeth gerddorol.

Mae Cytundeb Seoul UNESCO 2010 yn annog pob gwlad i gydnabod a hyrwyddo *gwerth hanfodol addysg y celfyddydau o ran gwella ansawdd addysg*[iii]*.* Yng Nghymru, mae llywodraethau olynol wedi ymateb gydag uchelgais a phwrpas clir, gan roi lle cwbl ganolog i gerddoriaeth yn y Cwricwlwm 2022 i Gymru[iv]. Mae cerddoriaeth yn cyfrannu mewn modd ystyrlon at bedwar diben y cwricwlwm,[v] a chaiff cerddoriaeth ei mawrbrisio nid yn unig fel disgyblaeth yn ei rhinwedd ei hun, ond hefyd oherwydd yr effaith bendant a gaiff ar gyrhaeddiad academaidd ehangach, caffael iaith, creadigrwydd, cydweithredu, cyfathrebu, llesiant[vi] a datblygiad gwybyddol hirdymor[vii]. Ochr yn ochr â meithrin twf parhaus diwydiant cerddorol llewyrchus Cymru, mae dysgu cerddoriaeth yn rhoi sgiliau creadigol ac entrepreneuraidd i bobl ifanc – sef sgiliau y bydd yn ofynnol i weithlu'r dyfodol feddu arnynt[viii]. Yn y ffordd hon, mae addysg cerddoriaeth yn sbardun pwerus ar gyfer symudedd cymdeithasol[ix] ac mae'n meithrin ymdeimlad cryf o Gynefin.

Gyda rhestr drawiadol o berfformwyr ac ensembles, mae cerddoriaeth yn dal i fod yn un o allforion diwylliannol mwyaf dylanwadol Cymru, ac mae'n llysgennad byd-eang grymus ar gyfer y genedl. Ond er mwyn cynnal yr ecosystem gerddorol werthfawr hon, rhaid buddsoddi'n barhaus mewn cyfleoedd dysgu o'r radd flaenaf – gan gwmpasu addysgu yn yr ystafell ddosbarth, arweinwyr cerddoriaeth a thiwtoriaid offerynnol/lleisiol arbenigol, mynediad at berfformiadau byw, ynghyd â darparu offerynnau, mannau ymarfer a llwyfannau perfformio.

Mae Llywodraeth Cymru'n dyrannu cyllid ar gyfer cyflawni Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth a reolir gan Wasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol (CLlLC), gan hyrwyddo arlwy cyffredinol sy'n cynnwys dysgu offerynnol a lleisiol, gwrando, creu a pherfformio. **Er mwyn cynnal ac ehangu mynediad teg at Addysg Cerddoriaeth, mae'n hanfodol i'r Senedd barhau i fuddsoddi mewn addysg cerddoriaeth o'r fath.**

O'r herwydd, mae Cymdeithas y DU dros Addysg Cerddoriaeth – Music Mark[x], ei haelodau a'i phartneriaid sy'n gweithio ledled Cymru, yn argymell y dylai'r holl bleidiau gwleidyddol ymrwymo i gefnogi'r **pum nod canlynol ar gyfer addysg cerddoriaeth**:

1. **Cefnogi'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth fel map trywydd strategol ar gyfer darparu dysgu cerddorol teg, parhaus a blaengar, yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt.**

2. **Sicrhau bod buddsoddiadau ariannol mewn addysg cerddoriaeth yn realistig, yn hirdymor eu natur, ac yn ymatebol i chwyddiant ac uchelgais.**
3. **Cydnabod bod athrawon offerynnol a lleisiol yn rhan hanfodol o'r gweithlu addysg, a gefnogir trwy gyfrwng fframwaith datblygu proffesiynol cenedlaethol sy'n mawrbrisio, yn uwchsgilio ac yn gwella ansawdd y gweithlu addysg cerddoriaeth.**
4. **Darparu cymorth parhaus ar gyfer Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol i Gymru er mwyn sicrhau'r partneriaethau, y cydgysylltu a'r seilwaith sy'n hanfodol ar gyfer cael ecosystem addysg cerddoriaeth lewyrchus.**
5. **Hyrwyddo cerddoriaeth fel elfen graidd o addysg a bywyd dinesig, gan gydnabod y modd y mae cerddoriaeth yn cyfrannu at ddiwylliant Cymru, y Gymraeg, iechyd, llesiant a chydlyniant cymunedol.**

## Y manylion sydd wrth wraidd y pum nod

1. **Cefnogi'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth fel map trywydd strategol ar gyfer darparu dysgu cerddorol teg, parhaus a blaengar, yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt.**

*"Mae yna fwy o lawer o waith partneriaeth a gweledigaeth strategol, mae'n arwain at gydweithredu da ar bob lefel. Mae yna fwy o gydgysylltu a mwy o orgyffwrdd rhwng prosiectau." Un o bartneriaid y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol*

Cafodd y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth i Gymru ei ddatblygu ar y cyd â'r sector addysg cerddoriaeth, ac mae'n cydweddu'n unigryw â'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r cydweddu hwn yn sicrhau bod y Cynllun yn cryfhau'r ac yn cyfoethogi'r cwricwlwm drwy gefnogi'r pedwar diben – helpu dysgwyr i ddod yn uchelgeisiol ac yn alluog, llawn mentergarwch ac yn greadigol, yn foesegol a gwybodus, ac yn iach ac yn hyderus – wrth sicrhau mynediad rhwydd a chynnydd parhaus mewn dysg gerddorol. Mae'r Cynllun yn cydnabod y modd y mae cerddoriaeth yn cyfrannu at ganlyniadau addysgol ehangach, iechyd, llesiant, cydlyniant cymdeithasol a chyflogadwyedd yn y dyfodol. Yn ogystal, mae'n atgyfnerthu ymrwymiadau cenedlaethol yn ymwneud â thegwch, amrywiaeth a chynhwysiant. Trwy ymgysylltu â cherddoriaeth, mae plant a phobl ifanc yn datblygu ymdeimlad cryf o Gynefin, gan feithrin cysylltiadau gyda'u cymunedau, diwylliant a threftadaeth, wrth ddathlu amrywiaeth gyfoethog y Gymru fodern sydd ohoni.

Mae'r cynllun hwn yn sicrhau mynediad llwyr gan gynnwys darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ehangu cyfranogiad, a galluogi pob person ifanc – ni waeth be fo'i gefndir, ei allu neu ei hunaniaeth – i elwa o'r manteision sy'n perthyn i ddysgu cerddoriaeth. Ar hyn o bryd, nid yw Estyn yn mynd ati'n rheolaidd i werthuso addysg cerddoriaeth mewn ysgolion; ond er mwyn sicrhau y bydd modd gwireddu uchelgeisiau'r Cynllun yn llwyr, ceir achos cryf dros gryfhau rôl Estyn o ran gwerthuso darpariaethau cerddoriaeth, er enghraifft trwy gynnal adolygiadau thematig neu trwy integreiddio'n well â fframweithiau arolygu. Bydd gwaith gwerthuso cynnar, a gyhoeddir gan y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol yng Ngwanwyn 2026, yn dangos effaith gadarnhaol y Cynllun ar ganlyniadau dysgu cerddorol ac ehangach. Mae'n hanfodol parhau i fabwysiadu'r Cynllun a darparu adnoddau digonol ar ei gyfer er mwyn inni allu parhau i sicrhau cydlyniant, tegwch ac uchelgais ledled Cymru.

2. **Sicrhau bod buddsoddiadau ariannol mewn addysg cerddoriaeth yn realistig, yn hirdymor eu natur, ac yn ymatebol i chwyddiant ac uchelgais.**

*"Mae'r effaith wedi bod yn araf – ceir bylchau o hyd o ran ategu a chynnal cynnydd. Canolbwyntiwyd o reidrwydd ar Brofiadau Cyntaf a thegwch, ond mae angen rhagor o gymorth er mwyn i dalent wirioneddol allu dod i'r fei." Un o bartneriaid y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol*

Trwy gyhoeddi'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth yng Nghymru, cafwyd ymrwymiad clir a chymeradwy i sicrhau y gall pob plentyn a pherson ifanc gael mynediad at ddysgu cerddorol ystyrlon. Caiff y cyllid sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Cenedlaethol ar hyn o bryd ei fawrbrisio a'i ddefnyddio'n effeithiol, ac mae eisoes yn esgor ar gyfleoedd a rhaglenni llwyddiannus. Fodd bynnag, os ydym am weld Cymru'n cyflawni'r Cynllun Cenedlaethol yn llwyr, yn cynnwys tegwch gwirioneddol o ran cael mynediad at brofiadau cyntaf o'r radd flaenaf a chynnal llwybrau cynnydd, rhaid i'r cyllid fod yn realistig a rhaid iddo gynyddu dros amser. Mae hyn yn hanfodol – nid yn unig er mwyn gallu dilyn chwyddiant a chostau cyflawni cynyddol, ond hefyd er mwyn gallu diwallu'r galw cynyddol wrth i fwy o ddysgwyr ymhél â cherddoriaeth. Mae buddsoddiad rhagweladwy a pharhaus yn arwain at allu llunio cynlluniau strategol yn yr hirdymor, gan sicrhau bod llwybrau priodol – o ymgysylltu cynnar hyd at gyfleoedd uwch – ar gael i bob dysgwr, ni waeth be fo'i gefndir neu ei ddaearyddiaeth. Heb fuddsoddiad digonol, ni fydd modd gwireddu uchelgais y Cynllun Cenedlaethol yn llwyr, a bydd gallu'r sector i gyflwyno darpariaeth gyson, gynhwysol ac o'r radd flaenaf yn cael ei roi yn y fantol.

3. **Cydnabod bod athrawon offerynnol a lleisiol yn rhan hanfodol o'r gweithlu addysg, a gefnogir trwy gyfrwng fframwaith datblygu proffesiynol cenedlaethol sy'n mawrbrisio, yn uwchsgilio ac yn gwella ansawdd y gweithlu addysg cerddoriaeth.**

*"Mae athrawon yn gwerthfawrogi'r gallu i barhau â'u datblygiad, esgor ar ragor o syniadau a bod yn fwy creadigol." Arweinydd gwasanaeth cerddoriaeth*

Mae llwyddiant unrhyw raglen addysgol yn ddibynnol ar weithlu hyfedr a gefnogir yn dda. Ledled Cymru, mae mwy na 500 o addysgwyr cerddoriaeth dawnus a phrofiadol yn cyflwyno darpariaethau mewn ysgolion a chanolfannau cerddoriaeth bob wythnos. Yn Adolygiad Amodau a Thelerau Music Mark, a gomisiynwyd gan CLlLC ar ran Llywodraeth Cymru yn 2024, tynnwyd sylw at amrywiaeth y contractau a'r trefniadau cyflogaeth a geir ledled y gweithlu hwn, ond hefyd dangoswyd yn glir ei bod yn ofynnol i'r holl ymarferwyr – ni waeth sut fath o gontract sydd ganddynt – deimlo eu bod yn cael eu mawrbrisio a'u parchu, a'u bod yn cael eu cydnabod am y cyfraniad hanfodol a wnânt. Hefyd, er mwyn cynnal a gwella'r ansawdd rhaid i addysgwyr gael cynnig cyfleoedd strwythuredig i ddiweddaru a dyfnhau eu sgiliau, yn cynnwys hyfforddiant a fydd yn eu galluogi i addysgu pob dysgwr yn effeithiol, yn enwedig dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Er mwyn cyflawni hyn, ceir achos cryf dros ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer datblygu'r gweithlu; ac o bosibl, gallai fframwaith o'r fath gynnwys datblygu cymhwyster cydnabyddedig i ategu proffesiynoli, cysondeb a chynnydd. Rhaid i'r Llywodraeth gydnabod yr adnodd hollbwysig sydd ganddi eisoes yn y gweithlu hwn, ynghyd â dangos ei hymrwymiad i gynnal a chryfhau'r adnodd hwnnw fel rhan hanfodol o ecoleg addysg Cymru.

4. **Darparu cymorth parhaus ar gyfer Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol i Gymru er mwyn sicrhau'r partneriaethau, y cydgysylltu a'r seilwaith sy'n hanfodol ar gyfer cael ecosystem addysg cerddoriaeth lewyrchus.**

*"Mae'r Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol wedi dwyn pob awdurdod lleol ynghyd ar ffurf grŵp cydlynus." Arweinydd gwasanaeth cerddoriaeth*

Mae creu Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol yn hollbwysig o ran llwyddo i weithredu'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth yng Nghymru. Yn awr ac yn y gorffennol, mae'r oruchwyliaeth genedlaethol hon yn cynnal darpariaethau rhanbarthol a lleol, yn hyrwyddo arlwy cyffredinol a chynhwysol, ac yn sicrhau bod partneriaid cenedlaethol yn y diwydiannau diwylliannol ac mewn gwasanaethau ehangach gogyfer plant a phobl ifanc yn rhan annatod o rwydweithiau addysg cerddoriaeth lleol a rhanbarthol. Gall y Gwasanaeth hwn gysylltu ymarferwyr er mwyn rhannu arferion gorau, ac mae'n creu cysylltiadau a all gynorthwyo pob cerddor ifanc i ffynnu a chamu ymlaen, gan gynnwys yn y diwydiant cerddoriaeth. Ymhellach, o ran y gwaith a wneir yng Nghymru, mae'r Gwasanaeth yn cynnig cyfle i dynnu sylw at y gwaith hwnnw ar y llwyfan rhyngwladol mewn cynadleddau addysg cerddoriaeth a thrwy gyfrwng partneriaethau o fewn yr ecoleg addysg cerddoriaeth fyd-eang. Ni ddylid tanbrisio'r cysylltiad lleol, rhanbarthol a rhyngwladol hwn, ac ychwaith ni ddylid tanbrisio'r gefnogaeth hon a gynigir gan gymheiriaid ar lefel leol, ranbarthol a rhyngwladol.

5. **Hyrwyddo cerddoriaeth fel elfen graidd o addysg a bywyd dinesig, gan gydnabod y modd y mae cerddoriaeth yn cyfrannu at ddiwylliant Cymru, y Gymraeg, iechyd, llesiant a chydlyniant cymunedol.**

*"Mae [cerddoriaeth] yn ffordd arall o ddarganfod yr hyn y gall plentyn ei wneud. Mae'r pethau sydd wedi datblygu yn wirioneddol anhygoel." Tiwtor Cerddoriaeth sy'n gweithio mewn ysgol arbennig*

Ceir diwylliant hanesyddol bod cerddoriaeth yn rhan o bob cymuned yng Nghymru. Er, o bosibl, na ddeallwyd yn y gorffennol bod hyn yn werthfawr o ran ategu iechyd a llesiant, mae gwaith ymchwil yn dangos yn glir bod cerddoriaeth yn *gallu* cael effaith – ac *yn* cael effaith – ar fywydau pawb[xi]. Trwy fynd ati'n barhaus i ategu a chydnabod gwerth addysg cerddoriaeth, gall y llywodraeth ddangos ei bod yn deall y modd hanfodol y mae cerddoriaeth yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[xii], Cymraeg 2050[xiii] a Chwricwlwm Cenedlaethol Cymru. Rhaid i'r Llywodraeth barhau i rymuso Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol Cymru, ynghyd â'r bartneriaeth o sefydliadau ac unigolion

sy’n cyflwyno addysg cerddoriaeth ledled y wlad, er mwyn ategu hyn trwy adrodd straeon ynglŷn â’r modd y caiff cerddoriaeth effaith ar gymdeithas yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan gryfhau ymdeimlad unigolion a’r gymdeithas o Gynefin.

**Trwy ymrwymo i’r pum nod hyn, bydd modd i’r llywodraeth nesaf yng Nghymru ddiogelu a sicrhau system addysg lewyrchus a theg i Gymru, ac un a fydd wedi’i diogelu at y dyfodol – system a fydd yn adlewyrchu hunaniaeth ddiwylliannol y genedl, yn cynorthwyo’i phobl ifanc ac yn cryfhau ei heconomi greadigol.**



**Music Mark** yw Cymdeithas y DU dros Addysg Cerddoriaeth. Mae’n cynrychioli sefydliadau, athrawon ac arweinwyr sydd wedi ymrwymo i ddarparu addysg cerddoriaeth o’r radd flaenaf i bob plentyn a pherson ifanc ledled y DU.

*Tynnwyd yr holl ddyfyniadau o waith gwerthuso a gynhaliwyd gan Ymchwil Arad ar ran y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol (CLlLC).*

---

[i] https://bit.ly/ukmusic-hometownglory-2025
[ii] https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg
[iii] https://unesdoc.unesco.org/ark:/48223/pf0000189611
[iv] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/
[v] https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/designing-your-curriculum/developing-a-vision-for-curriculum-design/#curriculum-design-and-the-four-purposes
[vi] https://www.musicmark.org.uk/resources/the-power-of-music-an-exploration-of-the-evidence-2/
[vii] https://www.jneurosci.org/content/33/45/17667
[viii] https://media.nesta.org.uk/documents/creativity_and_the_future_of_work_1.1.pdf
[ix] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5d307b8de5274a14e9f6bc20/An_Unequal_Playing_Field_report.pdf
[x] https://www.musicmark.org.uk/
[xi] https://arts.wales/about-us/research/economic-impact-report
[xii] https://www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethau-dyfodol-cymru
[xiii] https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg